

# Oriel Pris y Glo

**Yn sgil darganfod glo yn y De, fe ddihunodd Cwm Rhondda o gwsg y canrifoedd i fywyd diwylliannol prysur. Ym 1911, roedd 42,000 o ddynion a bechgyn yn cael eu cyflogi mewn 53 o lofeydd ym mhob man ar draws y Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr.**

Roeddent wedi darganfod yn fuan fod gwythiennau glo'r De yn eithriadol o anodd eu cloddio. Mae cofnod y trychinebau a'r damweiniau yn elfen mor annatod o we hanes y Rhondda ag y mae'r gwythiennau glo.

Mae'r arddangosfa o'ch blaen heddiw yn adrodd hanes rhyw ddyrnaid o'r glofeydd oedd i'w gweld gynt yn y Rhondda. Mae llawer ohonynt wedi hen ddiflannu o'r dirwedd, ond mae Glofa Lewis Merthyr yma o hyd yn ein hatgoffa mor fawr oedd y diwydiant hwn ers talwm.

**RHYBUDD: Mae'r arddangosfa hon yn cynnwys deunyddiau a allai beri gofid i rai ymwelwyr.**

# The Price of Coal

**The discovery of Coal in South Wales brought with it the industrialisation of a once sleepy Rhondda Valley. In 1911, 42,000 men and boys were employed in 53 collieries throughout Rhonnda Fach and Rhondda Fawr.**

The South Wales coal seam proved to be extremely difficult to mine. The record of disasters and accidents is as woven into our history as the coal seam is into the valley itself.

The exhibition in front of you today tells tale of a handful of the collieries which could have once been seen in the Rhondda. Many have long since disappeared from the landscape but the Lewis Merthyr Colliery endures as a reminder of this once great industry.

**WARNING this exhibition contains content that visitors may find upsetting or disturbing.**